



Tribiwnlys Addysg Cymru

Canllaw ar baratoi datganiad achos ar gyfer apêl

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Darllenwch hwn ochr yn ochr â'n llyfryn canllawiau apeliadau, sydd ar dudalen Cofrestr Cyhoeddiadau [ein gwefan](#).

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi datganiadau achos ar gyfer apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys). Ni allwn ymdrin â phopeth a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob apêl. Yn dibynnu ar natur eich apêl, efallai na fydd angen i chi anfon yr holl wybodaeth y sonnir amdani yn y daflen hon. Os ydym eisoes wedi derbyn gwybodaeth gyda'ch cais, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym eto. Cysylltwch â Thribiwnlys Addysg Cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich apêl y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n apelio i'r Tribiwnlys. Gall hyn gynnwys:

- plant a phobl ifanc dan 25 oed;
- rhieni plant o oedran ysgol gorfodol, ac iau;
- cyfeillion achos; a
- chynrychiolwyr.

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Gallwch apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg

bellach os ydych yn anghytuno â nhw. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, a'r Tribiwnlys, i symud yr apêl yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Cynnwys

1 Cyflwyniad a gwybodaeth bwysig	
- Cyflwyniad	3
- Terfynnau amser	3
- Terfynau amser a gwasanaethau datrys anghytundebau	3
- Datganiad achos yr ymatebydd	4
- Y bwndel olaf o bapurau	4
- Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr	4
- Y gwrandawriad	5
2 Beth i'w gynnwys yn eich datganiad achos	
- Pa wybodaeth sy'n hanfodol?	6
- Pa wybodaeth arall y dylid ei chynnwys?	6
- Sut I gyflwyno'ch datganiad achos	9
3 Paratoi bwndel	
- Cyfrifoldebau	10
- Paratoi bwndel	10
- Cynflwyno bwndeli	11

1. Cyflwyniad a gwybodaeth bwysig

Cyflwyniad

Eich datganiad achos yw'r wybodaeth rydych chi am i ni edrych arni fel rhan o'ch apêl. Dyma'ch cyfle chi i egluro'r rhesymau dros gyflwyno'r achos, a darparu tystiolaeth. Gallwch ddarparu dogfennau, adroddiadau, llythyrau, barn pobl, ac unrhyw beth arall sy'n cefnogi'ch achos yn eich tyb chi.

Bydd yn rhaid i'r ymatebydd baratoi datganiad achos hefyd. Ymatebydd yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn. Byddwn yn anfon copi o'ch apêl a'ch datganiad achos atynt, felly eu hymateb yw eu datganiad achos. Awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach, megis coleg, yw'r ymatebydd ym mhob achos.

Terfynau amser

Rhaid i ni dderbyn eich datganiad achos dim hwyrach nag 8 wythnos o'r dyddiad y dywedodd yr ymatebydd wrthych mewn llythyr am ei benderfyniad terfynol. Dyma'r un terfyn amser ar gyfer ceisiadau apêl. Os yw'n agos at ddiwedd eich terfyn amser o 8 wythnos cau, rydym yn eich cyngori i gyflwyno eich datganiad achos ar yr un pryd â'ch cais. Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl am gyngor, neu i ofyn am estyniad gan y Llywydd.

Terfynau amser a gwasanaethau datrys anghytundebau

Os byddwch yn penderfynu defnyddio gwasanaeth datrys anghytundebau yr awdurdod lleol cyn i chi apelio i'r Tribiwnlys, byddwn yn rhoi 8 wythnos ychwanegol i chi wneud cais. Byddai hyn yn golygu bod gennych 16 wythnos o ddyddiad llythyr penderfyniad yr ymatebydd i gyflwyno'ch datganiad achos a'ch cais.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth datrys anghytundebau ar ôl i chi anfon eich apêl i'r Tribiwnlys, gallwch wneud cais i lywydd y Tribiwnlys am gael oedi'r broses apelio am 8 wythnos. Efallai y byddwch am oedi'r apêl rhag ofn i'r gwasanaeth lwyddo i ddatrys y broblem. Nid yw defnyddio, neu beidio â defnyddio, y gwasanaeth datrys anghytundebau yn effeithio ar eich hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

Efallai y byddwch hefyd am barhau i drafod yr anghytundeb gyda'r ymatebydd heb y gwasanaeth datrys anghytundebau. Os byddwch, drwy'r trafodaethau hyn, neu drwy'r gwasanaeth datrys anghytundebau, yn dod i unrhyw gytundebau gyda'r ymatebydd, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys.

Datganiad achos yr ymatebydd

Ymatebydd yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhaid i'r ymatebydd baratoi datganiad achos a'i anfon i'r Tribiwnlys o fewn 4 wythnos o dderbyn eich datganiad achos. Bydd y Tribiwnlys yn sicrhau eich bod yn derbyn datganiad achos yr ymatebydd.

Y bwndel olaf o bapurau

Os nad ydych yn cael eich cynrychioli'n gyfreithiol, bydd yr ymatebydd yn llunio'r bwndel terfynol o bapurau. Dim ond i'r Tribiwnlys y mae angen i chi gyflwyno'ch datganiad achos a'ch tystiolaeth.

Y bwndel yw'ch datganiad achos chi a datganiad achos yr ymatebydd gyda'i gilydd, gyda'r holl ddogfennau dyblyg wedi'u dileu. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yr ymatebydd yn anfon y bwndel terfynol o bapurau atoch chi a'r Tribiwnlys. Os na fyddwch yn ymateb iddo mewn 5 diwrnod, mae'n bosibl y bydd yn tybio eich bod yn cytuno â'r cynnwys.

Rhaid i chi helpu'r ymatebydd i baratoi'r bwndel drwy ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau sydd eu hangen arno. Os nad ydych yn helpu'r ymatebydd, efallai y bydd y panel yn penderfynu eich bod yn ceisio celu tystiolaeth nad yw o gymorth i'ch achos. Rhaid i'r ymatebydd hefyd roi unrhyw ddogfennau sydd ganddo i chi, am yr un rheswm.

Os ydych yn cael eich cynrychioli'n gyfreithiol, rhaid i'r cynrychiolydd cyfreithiol a'r ymatebydd greu eu bwndeli eu hunain. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, bydd y Tribiwnlys yn eu cyfuno'n un bwndel o bapurau, ac yn sicrhau eich bod wedi gweld datganiad achos yr ymatebydd. Esbonnir y broses yn ddiweddarach yn y llyfryn canllaw hwn.

Tystiolaeth ysgrifenedig hwyr

Gallwch ofyn i banel y Tribiwnlys yn y gwrandawriad a fydd yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Bydd panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais:

- os yw'r ymatebydd yn cytuno i gynnwys y dystiolaeth; neu
- os gallwch ddangos nad oedd y dystiolaeth ar gael, ac na allai fod wedi bod ar gael yn rhesymol, cyn y dyddiad cau. Dylech anfon y dystiolaeth hon at y Tribiwnlys a'r ymatebydd fel ei bod yn cyrraedd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad. Bydd y panel yn dal i ystyried barn yr ymatebydd.

Rhaid i'r dystiolaeth hon hefyd fod yn annhebygol o atal y gwrandawriad rhag cael ei reoli'n effeithlon. Gallai cyflwyno dogfennau hir neu gymhleth yn y gwrandawriad achosi anawsterau neu oedi.

Gall y panel tribiwnlys barhau i dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr nad yw'n bodloni'r amodau hyn, ond dim ond os gallwch ddangos bod risg ddifrifol o ragfarn os na dderbynnir y dystiolaeth.

Bydd panel y tribiwnlys yn gwrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw'n credu y byddai'n groes i gyfiawnder.

Dewch â 5 copi o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i wrandawriad os nad yw'r tribiwnlys neu'r ymatebydd wedi'i derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw.

Y gwrandawriad

Yn y gwrandawriad, cewch chi a'ch tystion gyfle i egluro eich achos a rhoi eich barn i banel y tribiwnlys. Gallwch ofyn cwestiynau i'r ymatebydd a'i dystion hefyd.

Mae'r dystiolaeth a anfonwch atom cyn y gwrandawriad a'r hyn rydych chi'n ei ddweud ar y diwrnod yr un mor bwysig â'i gilydd. Fodd bynnag, dim ond y dystiolaeth a ddarparwch sy'n gallu cael ei hystyried ym mhenderfyniad y Tribiwnlys. Os ydych am i'r Tribiwnlys ystyried rhywbeth, gwnewch yn siŵr ei fod yn eich tystiolaeth.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wrandawriadau yn ein dogfen ganllaw *Canllaw i ar wrandawriadau (TAC16)* [ar ein gwefan](#).

2. Beth i'w gynnwys yn eich datganiad achos

Pa wybodaeth sy'n hanfodol?

Un o reolau Rheoliadau'r Tribiwnlys yw eich bod yn darparu'r safbwyntiau hyn:

- barn y plentyn neu'r person ifanc ar y materion dan sylw yn yr apêl; neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y plentyn neu'r person ifanc.

Os yw'r apêl yn ymwneud â phlentyn, rhaid i chi hefyd gynnwys:

- barn rhieni'r plentyn ar y materion dan sylw yn yr apêl; neu
- y rheswm pam nad ydych yn darparu barn y rhieni.

Mae rhiant yn cyfeirio at berson sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am y plentyn o fewn diffiniad Deddf Addysg 1996.

Pa wybodaeth arall y dylid ei chynnwys?

Y rheswm dros yr apêl fydd penderfynu pa wybodaeth y dylech ei darparu. Os yw'n berthnasol i'ch achos, ystyriwch gyflwyno'r canlynol:

- Esboniad o'r amgylchiadau, eich rhesymau dros gyflwyno achos, a safbwyntiau perthnasol.
- Llythyr penderfyniad yr ymatebydd.
- Llythyrau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig (ond nid os ydynt yn ymwneud â threfnu dyddiadau ac amserau cyfarfodydd).
- Adroddiadau proffesiynol perthnasol o'r tair blynedd diwethaf.
- Adroddiadau adolygu blynyddol o'r ddwy flynedd ddiwethaf sy'n berthnasol i'r materion y bydd y Tribiwnlys yn eu hystyried.
- Adroddiadau asesu, neu gynigion o leoedd mewn unrhyw ysgolion neu sefydliadau. Byddai manylion costau lleoliad a chludiant yn ddefnyddiol hefyd.

Dylech gynnwys esboniad o'r amgylchiadau, eich rhesymau dros gyflwyno achos, ac unrhyw safbwyntiau perthnasol hefyd.

Dylech ystyried y cwestiynau isod fel awgrymiadau neu syniadau. Atebwch nhw neu rhwch dystiolaeth ar eu cyfer os ydych yn credu eu bod yn esbonio eich achos. Efallai na fydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau, ond efallai y byddant yn eich helpu i benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys.

Anghenion dysgu ychwanegol

- Pa anghenion dysgu ychwanegol sydd gan y plentyn neu'r person ifanc?
- Pa ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, neu gymorth, y mae'n ei gael?
- Pwy sydd wedi rhoi help (er enghraifft, athro, cynorthwydd neu therapydd) ac am ba hyd?
- Pa gynnydd y mae wedi'i wneud? Os oes asesiadau neu brofion cynharach wedi'u cynnal, anfonwch gopiâu atom os yw'r canlyniadau'n helpu i ddangos eich achos.

Ysgol neu sefydliad addysg

- Pa bynciau neu weithgareddau y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu cael yn anodd?
- Oes pynciau eraill y mae'n dda ynddynt?
- Oes athro neu gynorthwydd yn rhoi cymorth ychwanegol iddo? Os felly, am ba hyd, ac ym mha bynciau?
- Os yw'r ysgol neu'r sefydliad wedi tynnu'r plentyn neu'r person ifanc allan o'r dosbarth ar gyfer addysgu grŵp bach neu unigol, pwy sy'n gwneud yr addysgu hwnnw? Ym mha bynciau y mae'n cael ei addysgu ar wahân, a beth yw nod yr addysgu?
- Ydy e'n defnyddio unrhyw offer arbennig?
- Oes ganddo unrhyw gynlluniau eraill, ar wahân i'w CDU? Os oes, rhwch gopi ohono. Gall copïau o gynlluniau cynharach fod yn ddefnyddiol hefyd.
- Beth mae'r ysgol neu'r sefydliad yn ei ddweud am ei gynnydd? Gall copïau o adroddiadau, nodiadau cyfarfodydd adolygu blynyddol a chanlyniadau arholiadau ein helpu.
- Faint o ddisgyblion sydd yn ei ddosbarth?
- Faint o oedolion sy'n gofalu am y dosbarth?

Meddygol

- Oes gan y plentyn neu'r person ifanc gyflwr meddygol sy'n effeithio ar ei addysg? Os felly, sut mae'n effeithio ar ei addysg?
- Oes unrhyw gymorth meddygol yn rhan o'i gynllun datblygu unigol?
- Ydy'r meddygon wedi dweud bod yr effaith ar ei addysg yn debygol o newid? Os felly, ym mha ffordd?

Therapi (therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol ac ati).

- Ydy'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael therapi eisoes? Rhwch gopiâu i ni o unrhyw adroddiadau neu asesiadau proffesiynol.
- Pa newidiadau ydych yn dymuno eu gweld yn ei therapi?
- Sut ydych yn disgwyl y byddai newidiadau i therapi, neu therapïau eraill, yn helpu?

- Beth mae therapyddion wedi'i ddweud am gynnydd eich plentyn a'r therapi y dylai ei gael yn y dyfodol?

Newid ysgolion neu sefydliadau addysg

- Sut y bydd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol neu'r sefydliad rydych yn ei awgrymu yn gweddu i anghenion y plentyn neu'r person ifanc?
- Pam ydych yn dymuno iddo fynd yno, yn hytrach nag i ysgol neu sefydliad arall?
- Oes gan yr ysgol neu'r sefydliad arbenigedd mewn addysgu plant sydd â'r anabledd neu'r anhawster dysgu sydd gan y plentyn neu'r person ifanc neu oes gan yr ysgol neu'r sefydliad brofiad o wneud hynny?
- Ydy'r ysgol neu'r sefydliad yn addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol llawn?
- Beth yw maint y dosbarth y byddai'ch plentyn yn ymuno ag ef?
- Faint o oedolion sy'n gofalu am y dosbarth?
- Pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn byw yn yr ysgol, oes rheswm addysgol am hynny?
- Oni bai bod yr ysgol yn ysgol a gynhelir, beth yw cost lle yno?
- Faint o amser fyddai'n ei gymryd i deithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad, a faint fyddai'n costio?
- Er mwyn sicrhau bod gennym gymaint o wybodaeth â phosibl am yr ysgol neu'r sefydliad o'ch dewis, anfonwch gopi o'i brospectws atom.

Addysg gartref

- Pam fyddai'n well i'ch plentyn gael ei addysgu gartref, yn hytrach nag mewn ysgol?
- Pa drefniadau manwl ydych yn eu hawgrymu?
- Faint fyddai'r trefniadau'n costio?

Sut i gyflwyno'ch datganiad achos

Gallwch gyflwyno eich datganiad achos drwy e-bost neu drwy'r post.

Os ydych yn cyflwyno drwy e-bost, rhaid i chi:

- gynnwys rhestr gynnwys ar ffurf Word, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- cyflwyno'r holl ddogfennau eraill ar ffurf PDF; a
- darparu cyfrineiriau ar gyfer unrhyw ddogfennau sydd wedi'u cloi.

Os ydych yn cyflwyno drwy'r post, rhaid i chi:

- anfon copiâu yn hytrach na dogfennau gwreiddiol;
- cynnwys rhestr gynnwys, gan nodi enw'r ddogfen, ei dyddiad a'i hawdur;
- peidio â staplo dogfennau; a
- pheidio ag ychwanegu rhifau tudalennau eich hun.

3. Paratoi bwndel

Cyfrifoldebau

Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, yr ymatebydd sy'n gyfrifol am roi'r bwndel at ei gilydd. Dim ond i'r Tribiwnlys y mae angen i chi gyflwyno'ch datganiad achos a'ch tystiolaeth.

Os oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, eich cynrychiolydd sy'n gyfrifol am roi'ch bwndel at ei gilydd.

Paratoi bwndel

Dylai bwndel fod yn un ffeil PDF o'r holl ddogfennau, ac un ffeil Word gyda mynegai, yn manylu cynnwys y bwndel PDF. Dylai'r mynegai nodi'r math o ddogfen, dyddiad, awdur (gan gynnwys swydd/proffesiwn), a rhif tudalen ar gyfer pob dogfen.

Os ydynt ar gael, rhaid i'r bwndel gynnwys:

- a) Y cais apêl, unrhyw resymau diwygiedig dros apelio a'r Datganiad cyfredol (os yw'n berthnasol)
- b) Datganiad Achos y ddau barti
- c) Llythyr penderfyniad yr ymatebydd
- d) Unrhyw geisiadau am newidiadau a wneir gan barti.
- e) Gorchymynion y Tribiwnlys ac unrhyw ddogfennau y mae'r Tribiwnlys wedi gorchymyn iddynt gael eu ffeilio
- f) Unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng y partiön. Noder, ni ddylai hyn gynnwys gohebiaeth am ddyddiadau cyfarfodydd neu faterion nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl
- g) Adroddiadau proffesiynol perthnasol sydd wedi'u paratoi dim mwy na thair blynedd ar ôl dyddiad yr apêl
- h) Adroddiadau adolygu blynyddol sy'n berthnasol i'r materion sydd i'w penderfynu gan y Tribiwnlys am y ddwy flynedd ddiwethaf
- i) Unrhyw adroddiad asesu a chynnig o le (os yw'n berthnasol) gan y sefydliad addysgol arfaethedig a enwir yn y CDU. Os yw'n berthnasol, manylion cost y lleoliad, a chost cludiant i'r plentyn neu'r person ifanc i'r lleoliad.
- j) Dogfen weithio derfynol a/neu restr gytûn o faterion heb eu datrys
- k) Datganiadau tystion i'w rhoi mewn tystiolaeth

Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl ddogfennau'n gyflawn, yn ddarllenadwy, ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

Ar gyfer eitemau D i K, mae terfyn tudalennau o 300 tudalen. Nid targed yw'r terfyn hwn ac ni fydd angen y nifer hwn o dudalennau ar lawer o achosion. Nid yw eitemau A i C wedi'u cynnwys yn y terfyn 300 tudalen. Mae hyn yn sicrhau bod partïon i'r gwrandawriad yn cael cyfle i gyflwyno eu hachos yn llawn. Os ydych am gynyddu'r terfyn tudalennau, bydd angen i chi wneud cais i'r Tribiwnlys. Dylai'ch cais gynnwys rhesymau clir ynghylch pam mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cael gwrandawriad teg ar gyfer y mater.

Cyflwyno bwndeli

Rhaid i gynrychiolwyr cyfreithiol gyflwyno bwndeli heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl cyfnod y datganiad achos. Yna, bydd yr ymatebydd yn gwybod i beidio â chynnwys unrhyw ddogfennau sydd yn eich bwndel. Os nad yw'ch cynrychiolydd cyfreithiol yn darparu'r bwndel mewn pryd, gall panel y Tribiwnlys eich atal rhag cyflwyno unrhyw ddogfennau yn y gwrandawriad.

Dylai'r ymatebydd ddarparu ei bwndel o bapurau heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl ei gyfnod datganiad achos. Os nad yw'n gwneud hynny, gall panel y Tribiwnlys ei atal rhag cyflwyno unrhyw ddogfennau yn y gwrandawriad.

Ar ôl i'r ddau bwndel gael eu cyflwyno, bydd y Tribiwnlys yn cyfuno'r bwndeli a'r mynegeion. Bydd yn anfon y rhain at eich cynrychiolydd a'r ymatebydd o leiaf 10 diwrnod cyn y gwrandawriad.